
# Pecyn Gweithgareddau'r Chwe Gwlad



THIS IS OUR GAME

DYMA RYGBI CYMREIG

# Contents


Croeso ---------------------- Tudalen 3

Ffeithiau'r Chwe Gwlad -------- Tudalen 4

Gemau Cymru 2023 ----------- Tudalen 5

Timau ---------------------- Tudalen 7

Gweithgareddau Cam 1 -------- Tudalen 13

Dylunio Crys, Poster Cefnogwyr,
Baneri Cymru, Gwledydd a Baneri,
Canu dros Gymru, Rhifau'r Chwe Gwlad

Gweithgareddau Cam 2 -------- Tudalen 33

Dylunio Logo, Cerdd Acrostig, Araith Ysgogol,
Rhifau'r Chwe Gwlad

Gweithgareddau Cam 3 -------- Tudalen 50

Amrywiaeth mewn Collage Rygbi, Ymchwil
Gwledydd ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad,
Rhifau'r Chwe Gwlad.

# Croeso!

## Shwmae a chroeso i becyn gweithgareddau Chwe Gwlad URC!

**Bydd disgyblion ledled Cymru yn llawn cyffro i weld Cymru yn chwarae ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni. Felly, mae URC wedi cydgasglu nifer o weithgareddau difyr a diddorol sy'n cefnogi amrywiaeth o Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) er mwyn annog a gwella dysgu yn yr ystafell ddosbarth.**

**Mae'r gweithgareddau wedi'u trefnu yn unol â Chamau Cynnydd 1, 2 a 3. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd i addasu pob gweithgaredd ar gyfer pob disgybl ar ei siwrnai ddysgu.**

**Mae'r gweithgareddau wedi'u creu i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru (CiG), gan roi'r cyfle i ddatblygu'r pedwar diben o ran y cynnwys a ddarperir a'r profiadau posibl i'w dilyn. Mae'r gweithgareddau hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion a'r athrawon i ddatblygu eu syniadau ymhellach.**

**Mae URC yn annog ysgolion i gyhoeddi a hyrwyddo eu gwaith gan ddefnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol penodol yr ysgol, fel bod chwaraewyr, hyfforddwyr a staff yn gweld y cyffro, y gefnogaeth a'r gwaith ardderchog a grëwyd mewn ysgolion ledled Cymru ar gyfer twrnamaint y Chwe Gwlad eleni.**

Defnyddiwch **@WelshRugbyUnion @WRU_Community** a **#CrysIBawb** er mwyn rhoi'r cyfle gorau i sicrhau bod eich gwaith yn cael ei weld!

# C'mon Cymru!

# Ffeithiau am y Chwe Gwlad

## Beth yw Pencampwriaeth y Chwe Gwlad?

Y Chwe Gwlad yw pencampwriaeth rygbi'r undeb **hynaf yn y byd.** Mae'n gystadleuaeth flynyddol rhwng **Cymru**, **Iwerddon**, **Yr Alban**, **Ffrainc**, **Yr Eidal** a **Lloegr.**

## Pryd dechreuodd y Twrnamaint?

**Dechreuodd y bencampwriaeth yn 1882** o dan y teitl 'Gwledydd Cartref' ac roedd yn cynnwys pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

## Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?

Mae Cymru wedi ennill y Bencampwriaeth **28 gwaith** ac wedi rhannu'r teitl **11** gwaith arall, sy'n golygu mai **39** o gyflawniadau a wnaed at

# Dynion – Gemau



Dydd Sadwrn 4 Chwefror

**Cymru v Iwerddon**

Y gig gyntaf: 2:15pm

Stadiwm y Principality, Caerdydd





Dydd Sadwrn 11 Chwefror

**Yr Alban v Cymru**

Y gig gyntaf: 4:45pm

Murrayfield Stadium, Edinburgh





Dydd Sadwrn 25 Chwefror

**Cymru v Lloegr**

Y gig gyntaf: 4:45pm

Stadiwm y Principality, Caerdydd





Dydd Sadwrn 11 Mawrth

**Yr Eidal v Cymru**

Y gig gyntaf: 2:15pm

Stadio Olimpico, Rhufain





Dydd Sadwrn 18 Mawrth

**Ffrainc v Cymru**

Y gig gyntaf: 2:45pm

Stade de France, Paris



# Menywod – Gemau



Dydd Sadwrn 25 Mawrth

**Cymru v Iwerddon**

Y gig gyntaf: 2:15pm

Parc yr Arfau Caerdydd





Dydd Sadwrn 1 Ebrill

**Yr Alban v Cymru**

Y gig gyntaf: 4:30pm

I'w gadarnhau





Dydd Sadwrn 15 Ebrill

**Cymru v Lloegr**

Y gig gyntaf: 2:15pm

Parc yr Arfau Caerdydd





Dydd Sul 23 Ebrill

**Ffrainc v Cymru**

Y gig gyntaf: 2:15pm

I'w gadarnhau





Dydd Sadwrn 29 Ebrill

**Yr Eidal v Cymru**

Y gig gyntaf: 2:30pm

I'w gadarnhau



# Cymru
## Wales



**Poblogaeth:**
3.1 miliwn o bobl

**Anthem:**
Hen Wlad
fy Nhadau

**Blodyn Cenedlaethol:**
Cenhinen Bedr

**Stadiwm Rygbi:**



Stadiwm y Principality

**2023 Capten y Dynion**




Ken Owens

**2022 Capten y Menywod:**




Hannah Jones

**Logo y Tîm Rygbi:**

WRU

**Baner:**



# Iwerddon

## Ireland



**Poblogaeth:**
5.1 miliwn o bobl

**Anthem:**
Ireland's Call and
Amhrán na bhFiann
(Cân y Milwr)


**Blodyn Cenedlaethol:**
Y Feillionen

**Stadiwm Rygbi:**



Stadiwm Aviva

**2023 Capten y Dynion**



Jonny Sexton

**2022 Capten y Menywod:**




Nichola Fryday

**Logo y Tîm Rygbi:**

IRFU

**Baner:**



# Yr Alban
## Scotland



**Poblogaeth:**
5.5 miliwn o bobl

**Anthem:**
Flower of Scotland

**Blodyn Cenedlaethol:**
Yr Ysgallen

**Stadiwm Rygbi:**



Murrayfield

**2023 Capten y Dynion**



Jamie Richie

**2022 Capten y Menywod:**




Rachel Malcolm

**Logo y Tîm Rygbi:**

SCOTLAND

**Baner:**



# Lloegr
## England

**Poblogaeth:**
55.98 miliwn o bobl

**Anthem:**
God Save the King

**Blodyn Cenedlaethol:**
Y Rhosyn



**Stadiwm Rygbi:**



Stadiwm Twickenham

**2023 Capten y Dynion**



Owen Farrell

**2022 Capten y Menywod:**



Sarah Hunter

**Logo y Tîm Rygbi:**

England Rugby

**Baner:**



# Yr Eidal

## Italy



**Poblogaeth:**
59.11 miliwn o bobl

**Anthem:**
Il Canto degli Italiani
(Cân yr Eidalwyr)

**Blodyn Cenedlaethol:**
Y Lili Wen

**Stadiwm Rygbi:**



Stadio Olimpico

**2023 Capten y Dynion**



Michel Lamaro

**2022 Capten y Menywod:**



Elisa Giordano

**Logo y Tîm Rygbi:**

F.I.R. ®
ITALIA

**Baner:**



# Ffrainc

## France



**Poblogaeth:**
67.75 miliwn o bobl

**Anthem:**
La Marseillaise

**Blodyn Cenedlaethol:**
Fleur de Lis (Y Lily)

**Stadiwm Rygbi:**



Stade de France

**2023 Capten y Dynion**



Antoine Dupont

**2022 Capten y Menywod:**



Gaëlle Hermet

**Logo y Tîm Rygbi:**

**Baner:**



# Cynnydd Gweithgareddau Cam 1

# Cynnydd Cam 1: Dylunio Crys

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl, creadigol a datrys problemau, ymarfer geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â lliwiau/siapiau

**Amcan y Gweithgaredd:** Gweithio'n unigol a chydweithredu i greu crys newydd i Gymru

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Offer:** Templed crysau, offer lliwio, offer gwneud lluniau

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Yr athro/athrawes i egluro i'r disgyblion ei bod hi'n hanfodol i dîm rygbi gydweithredu'n effeithiol a gweithio'n dda gyda'i gilydd. Gall yr athro/athrawes bwysleisio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i gynllunio a chreu dyluniad crys newydd i dîm rygbi Cymru ei wisgo ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Argraffwch y templed crysau ar gyfer pob disgybl.

Gall athrawon ddangos enghreifftiau o ddyluniadau gwahanol o grysau rygbi Cymru i sbarduno syniadau a rhoi sylw i ddyluniadau/lliwiau pob crys, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu. Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa grys sydd orau ganddynt a pham?
- Pa liwiau sydd orau ganddynt?
- Pa liw(iau) sy'n cynrychioli crys Cymru?

Mae'r athrawon yn pennu templed crysau i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion ac yn gofyn iddynt ddylunio crys newydd i Gymru. Gall athrawon wahaniaethu rhwng maen prawf penodol gyda'r disgyblion ar gyfer dyluniad y crys megis lliw(iau) penodol i'w defnyddio, nifer y lliwiau i'w defnyddio, nifer/math o siapiau a ganiateir ac ati. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg at liwiau a siapiau.

Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu dyluniadau crysau, efallai yr hoffent gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu eu harddangos ar wal waith y dosbarth.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o ddyluniadau crysau ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Disgyblion yn dylunio crys 'oddi cartref' i fynd gyda'r crys cartref newydd y maent wedi'i ddylunio, gan ddefnyddio'r siapiau/lliwiau mewn ffordd amgen

# Dylunio Crys

Ewch ati i ddylunio crys newydd ar gyfer timau Rygbi Cymru.



# Cynnydd Cam 1: Poster Cefnogwyr

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl a dealltwriaeth o dermau Cymraeg.

**Amcan y Gweithgaredd:** Cwblhau poster cefnogwyr i Gymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Offer:** Templed posteri, offer lliwio, offer gwneud lluniau

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Yr athro/athrawes i argraffu'r templed(i) posteri ar gyfer pob disgybl/grŵp o ddisgyblion.

Gall athrawon ddangos enghreifftiau o bosteri gwahanol a ddefnyddir i gefnogi Cymru a gwledydd eraill ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu. Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa boster sydd orau ganddynt a pham?
- Beth oedd ei hoff beth am y poster a pham?
- Beth sy'n gwneud poster da?

Mae'r athrawon yn pennu templed posteri i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion eu cwblhau'n unigol neu mewn grwpiau. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â lliwiau, geiriau cefnogol ac ati.

Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu poster, efallai yr hoffent gyflwyno eu gwaith i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu ei arddangos ar wal waith y dosbarth.


## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o bosteri ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Disgyblion yn dylunio eu templed posteri eu hunain i gefnogi Cymru

# Poster Cefnogwyr

Lliwiwch y poster a'i arddangos pan fyddwch wedi gorffen.

(Gallech hyd yn oed gymryd llun ohono a'i anfon i'r timau i ddangos eich cefnogaeth!)



# Cynnydd Cam 1: Baneri Cymru

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl a dealltwriaeth o dermau Cymraeg.

**Amcan y Gweithgaredd:** Cwblhau baneri Cymru i gefnogi Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Offer:** Templed baneri, offer lliwio, offer gwneud lluniau

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Yr athro/athrawes i argraffu'r templed(i) baneri ar gyfer pob disgybl/grŵp o ddisgyblion.

Gall athrawon ddangos enghreifftiau o wahanol fathau o faneri o Gymru a gwledydd gwahanol sy'n chwarae ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu. Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa fath o faneri sydd orau ganddynt a pham?
- Beth oedd ei hoff beth am y baneri a pham?
- Sut y gellir defnyddio'r baneri i gefnogi'r tîm?

Mae'r athrawon yn pennu templed baneri i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion eu cwblhau'n unigol neu mewn grwpiau. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â lliwiau, geiriau cefnogol ac ati.


Unwaith y bydd y disgyblion/grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu baneri, efallai yr hoffent gyflwyno eu gwaith i'r dosbarth neu ei arddangos o gwmpas y dosbarth/ysgol i ddangos eu cefnogaeth i Gymru.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:


- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o faneri ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Disgyblion yn dylunio eu templed baneri eu hunain i gefnogi Cymru

# Baneri

Ewch ati i argraffu a lliwio'r dyluniadau o faneri ar y dudalen nesaf. Yna, torrwch y rhain allan a'u gludo ar hyd darn o rhuban neu linyn! Cofiwch eu harddangos o gwmpas yr ystafell.



WRU



POB
LWC
CYMRU!

POB
LWC
CYMRU!

# Cynnydd Cam I: Gwledydd a'u Baneri

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl, sgiliau creadigol. Ymarfer geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â lliwiau/siapiau/gwledydd

**Amcan y Gweithgaredd:** Gwaith unigol a chydweithredol i greu baner newydd i Gymru neu wlad ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Dyniaethau, Y Celfyddydau Mynegiannol

**Offer:** Templed baneri, offer lliwio, offer gwneud lluniau

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes bwysleisio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i gynllunio a chreu dyluniad baner newydd i Gymru. Argraffwch y templed baneri ar gyfer pob disgybl. Gall athrawon ddangos enghreifftiau o'r baneri gwahanol o bob gwlad sy'n cymryd rhan ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol. Gall yr athro/athrawes herio'r disgyblion i nodi'r faner o bob gwlad neu ymchwilio i faneri gwledydd ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad mewn grwpiau. Argraffwch a nodwch dempled y wlad.

Gall yr athro/athrawes hefyd arddangos amrywiaeth o faneri o bob rhan o'r byd i ysgogi syniadau dylunio ac i roi sylw ar y dyluniadau/lliwiau/siapiau a ddefnyddir i greu pob baner, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu. Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa faner sydd orau ganddynt a pham?
- Pa liwiau sydd orau ganddynt?
- Pa ddyluniad sydd orau ganddynt a pham?

Mae'r athrawon yn pennu templed baneri i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion ac yn gofyn iddynt ddylunio baner newydd i Gymru neu wlad o'u dewis ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Gall athrawon benderfynu gyda'r disgyblion ar faen prawf penodol ar gyfer cynllun y faner megis lliw(iau) penodol i'w defnyddio, nifer y lliwiau i'w defnyddio, arwyddlun sy'n cynrychioli'r wlad ac ati. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg at wledydd, liwiau a siapiau.


Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu dyluniadau baneri, efallai yr hoffent gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu eu harddangos ar wal waith y dosbarth.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o ddyluniadau baneri ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Y disgyblion i allu nodi baneri o wledydd y Chwe Gwlad ar lafar yn Gymraeg a Saesneg
- Disgyblion i allu nodi o leiaf un peth sy'n cynrychioli gwlad ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

# Gwledydd a'u Baneri


Ewch ati i nodi a labelu'r baneri.




____________________




____________________



____________________



____________________



____________________



____________________

# Gwledydd a'u Baneri

Ewch ati i greu baner newydd ar gyfer gwlad.

# Progression Step 1: C'mon Cymru – Sing for Wales

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau ysgrifennu a pherfformio, ymchwilio i ddiwylliant Cymru. Meithrin dealltwriaeth o dermau newydd Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Cyfansoddi a pherfformio rhigwm/cân newydd i Gymru

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Celfyddydau Mynegiannol, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Offer:** Templed taflen ganeuon, pen ysgrifennu/pensil

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes bwysleisio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i gyfansoddi a pherfformio rhigwm newydd neu bennill o gân newydd i Gymru. Argraffwch y templed caneuon ar gyfer pob disgybl.

Gall athrawon rannu enghreifftiau o anthemau Cenedlaethol timau'r Chwe Gwlad a chaneuon enwog o Gymru, gan ddefnyddio'r templed taflen ganeuon a bwrdd gwyn rhyngweithiol. Gall y disgyblion ymarfer y caneuon fel dosbarth neu mewn grwpiau bach.

Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa gân sydd orau ganddynt a pham?
- Beth roeddent yn ei hoffi am y gânt?
- Pa ran o'r gân yr hoffent ei newid/addasu?

Mae'r athrawon yn pennu templed o daflen ganeuon i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion ac yn gofyn iddynt gyfansoddi rhigwm newydd neu bennill o gân newydd i Gymru. Gall athrawon benderfynu gyda'r disgyblion, ar faen prawf llwyddiant ar gyfer y cyfansoddiad. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg at wledydd, tirnodau ac unrhyw dermau perthnasol eraill.

Unwaith y bydd y disgyblion/grwpiau o ddisgyblion wedi cyfansoddi eu rhigwm/pennill o gân, efallai yr hoffent berfformio i'r dosbarth, gan ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Perfformio'r gân gan ddefnyddio symudiadau a meimio elfennau o'r gân
- Perfformio'r gân yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda disgyblion yn cyfeilio

# Anthem Genedlaethol

Creu pennill newydd i anthem genedlaethol Cymru.

## Cymraeg

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion,
enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mâd,
Tros ryddid gollasant eu gwaed.

**Chorus:**
**Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,**
**Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,**
**O bydded i'r heniaith barhau.**

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd;
Pob dyffryn, pob clogwyn,
i'm golwg sydd hardd,
Trwy deimlad gwladgarol,
mor swynol yw si,
Ei nentydd, afonydd, i mi.

Os treisiodd y gelyn fy
ngwlad dan ei droed,
Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

## Saesneg

This land of my fathers is dear to me
Land of poets and singers,
and people of stature
Her brave warriors, fine patriots
Shed their blood for freedom

**Chorus:**
**Land! Land! I am true to my land!**
**As long as the sea serves as a wall**
**For this pure, dear land**
**May the language endure for ever.**

Old land of the mountains,
paradise of the poets,
Every valley, every cliff a beauty guards;
Through love of my country, enchanting
voices will be
Her streams and rivers to me.

Though the enemy have
trampled my country underfoot,
The old language of the Welsh
knows no retreat,
The spirit is not hindered by
the treacherous hand. Nor silenced the
sweet harp of my land.



# Anthem Genedlaethol

Creu pennill newydd i anthem genedlaethol Cymru.



# Canu dros Gymru

Gwrandewch ar amrywiaeth o ganeuon cefnogwyr Cymru ac ymchwiliwch iddynt.

## Calon Lan

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân:
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.

## Hymns & Arias

And we were singing
hymns and arias,
'Land of my Fathers',
'Ar hyd y nos'.

## Yma o Hyd

Dwyt ti'm yn cofio Macsen
Does neb yn ei nabod o
Mae mil a chwe chant o
flynyddoedd
Yn amser rhy hir i'r cof

Ry'n ni yma o hyd
Ry'n ni yma o hyd
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Er gwaetha pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd



# Canu dros Gymru

Ewch ati i greu cân newydd i gefnogwyr Cymru ei cha-



# Cynnydd Cam 1: Rhifau'r Chwe Gwlad

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau rhif, yn enwedig dealltwriaeth o bictogramau

**Amcan y Gweithgaredd:** Dehongli a deall pa mor llwyddiannus fu Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Mathemateg a Rhifedd

**Offer:** Templed cyflawniadau'r Chwe Gwlad, pen ysgrifennu/pensil

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes esbonio i'r disgyblion beth yw pictogram a pham ei fod yn cael ei ddefnyddio. Gall yr athro/athrawes rannu enghreifftiau o bictogramau gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Gall yr athro/athrawes rannu templed cyflawniad y Chwe Gwlad. Gall yr athro/athrawes nodi beth mae pob eicon/llun yn ei ddangos (coron driphlyg, enillwyr y bencampwriaeth, y gamp lawn). Mae'r pwyntiau ar gyfer pob cyflawniad fel a ganlyn:

- Camp lawn – 5 pwynt
- Pencampwriaeth – 2 bwynt
- Coron Driphlyg – 1 pwynt

Gall yr athro/athrawes ofyn y cwestiynau canlynol neu ddewis cwestiynau addas er mwyn galluogi disgyblion i gymhwyso eu dealltwriaeth o bictogramau.

1. Faint o weithiau y mae Cymru wedi ennill y gamp lawn?
2. Faint o weithiau y mae Cymru wedi ennill y goron driphlyg?
3. Faint o weithiau y mae Cymru wedi ennill y bencampwriaeth?
4. A oes unrhyw flynyddoedd pan enillodd Cymru y bencampwriaeth a'r goron driphlyg? Os felly, pryd?
5. A oes unrhyw flynyddoedd pan enillodd Cymru y bencampwriaeth a'r gamp lawn?

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Gofynnwch i'r disgyblion nodi'r cyfnodau mwyaf llwyddiannus/lleiaf llwyddiannus ar gyfer Cymru
- Newid gwerth pob cyflawniad i roi sylw ar gannoedd, degau ac unedau
- Disgyblion yn cwblhau siart cyfrif gan ofyn i'r dosbarth pwy fydd yn ennill y Chwe Gwlad yn eu barn nhw, ac yn tynnu llun pictogram o'r canlyniadau

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Hanes Anrhydeddau Chwe Gwlad Tîm Dynion Cymru.

## Hanes Anrhydeddau Chwe Gwlad Tîm Dynion Cymru

### Camp Lawn Grand Slam

1908 1909 1911 1950 1952 1971 1976 1978 2005 2008 2012 2019

### Pencampwriaeth Championship

1893 1900 1902 1905 1908 1909 1911 1922 1931 1936 1950 1952 1956 1965

1966 1969 1971 1975 1976 1978 1979 1994 2005 2008 2012 2013 2019 2021

### Coron Driphlyg Triple Crown

1893 1900 1902 1905 1908 1909 1911 1950 1952 1965 1969

1971 1976 1977 1978 1979 1988 2005 2008 2012 2019 2021

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Hanes Anrhydeddau Chwe Gwlad Tîm Dynion Cymru.

| COUNTRY | TALLY | TOTAL |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



# Cynnydd Gweithgareddau Cam 2

# Cynnydd Cam 2: Dylunio Logo

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl, sgiliau creadigol. Ymarfer geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â lliwiau/siapiau/arwyddluniau

**Amcan y Gweithgaredd:** Gweithio'n unigol a chydweithredu i greu logo newydd i Gymru yn fformat 2D a 3D

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Offer:** Templed logos, offer lliwio, offer gwneud lluniau

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Yr athro/athrawes i egluro i'r disgyblion ei bod hi'n hanfodol i dîm rygbi gydweithredu'n effeithiol a gweithio'n dda gyda'i gilydd. Gall yr athro/athrawes bwysleisio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i gynllunio a chreu logo newydd ar gyfer crys Cymru. Argraffwch y templed logos ar gyfer pob disgybl.

Gall athrawon ddangos enghreifftiau o ddyluniadau logos timau chwaraeon/logos busnesau gwahanol i sbarduno syniadau a rhoi sylw i'r dyluniadau/lliwiau a ddefnyddir, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu. Gall y dosbarth wedyn mynd ati i drafod:

- Pa logo sydd orau ganddynt a pham?
- Pa liwiau sydd orau ganddynt?
- Pa batrwm/batrymau y gwnaethant sylwi arno/arnynt?
- Pa liw(iau) sy'n cynrychioli logo Cymru?

Mae'r athrawon yn pennu templed logos i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion ac yn gofyn iddynt ddylunio logo newydd ar gyfer crys Cymru. Gall athrawon wahaniaethu rhwng maen prawf penodol gyda'r disgyblion ar gyfer

dyluniad y crys megis lliw(iau) penodol i'w defnyddio, nifer y lliwiau i'w defnyddio, nifer/math o siapiau, patrymau i'w defnyddio, cymesuredd patrymau ac ati. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg at liwiau, arwyddluniau sy'n cynrychioli Cymru a siapiau.

Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu dyluniadau logos, efallai yr hoffent gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu eu harddangos ar wal waith y dosbarth.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o ddyluniadau logos ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Disgyblion yn creu fersiwn 3D o'u logo

# Dylunio Logo

Ewch ati i ddylunio logo newydd ar gyfer crysau Rygbi Cymru.



# Cynnydd Cam 2: Cerdd Acrostig – Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau ysgrifennu creadigol

Amcan y Gweithgaredd: Cyfansoddi darn o farddoniaeth acrostig i Gymru

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Offer:** Templed barddoniaeth, pen ysgrifennu/pensil

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall athrawon gyflwyno'r syniad o gerdd acrostig, ei strwythur a'i phwrpas. Gall yr athro/athrawes rannu enghreifftiau o wahanol gerddi acrostig, sy'n berthnasol i oedran/cyfnod dysgu'r disgyblion, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i helpu.

Gall athrawon rannu templed cerdd acrostig 'WALES' 'CYMRU' i ddisgyblion unigol/grwpiau o ddisgyblion a gofyn iddynt greu cerdd i gefnogi Cymru ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu cerddi acrostig, efallai yr hoffent gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu eu harddangos ar wal waith y dosbarth.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn creu arddangosfa wal weithredol o'u gwaith i ddangos eu cefnogaeth i Gymru
- Disgyblion yn cyfansoddi rhigwm/rap/cân sy'n gysylltiedig â'u cerdd
- Disgyblion yn llunio llyfr barddoniaeth o farddoniaeth y Chwe Gwlad

# Cerdd Acrostic

Ewch ati i greu cerdd acrostig am

W

A

L

E

S

# Cerdd Acrostic

Ewch ati i greu cerdd acrostig am

C

Y

M

R

U

# Cynnydd Cam 2: Araith Ysgogol

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau creadigol a pherfformio. Meithrin gwell ddealltwriaeth o dermau ac ymadroddion Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Llunio a chyflwyno araith ysgogol ar gyfer tîm Cymru yn ystod gêm ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Offer:** Templed lleferydd, pen ysgrifennu/pensil. offer digidol

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Mae'r athro/athrawes yn rhannu ystod o areithiau ysgogol/sgyrsiau tîm gyda'r dosbarth. Yr athro/athrawes i egluro diben araith ysgogol; i ysbrydoli eraill ac i gymell eraill i lwyddo.

Gall y dosbarth drafod y canlynol:

- Pa araith oedd y mwyaf ysbrydoledig a pham?
- Beth a ddywedodd yr unigolion i ysbrydoli eraill?
- Pa eiriau allweddol y gallwch eu nodi a oedd yn ysgogol?

Gan ddefnyddio'r templed 'awgrymiadau defnyddiol', gall y dosbarth drafod y prif ofynion sydd eu hangen ar gyfer araith effeithiol. Argraffwch y templed 'awgrymiadau defnyddiol' a'r templedi 'cynllun araith'.

Mae'r athro/athrawes yn egluro y bydd angen i ddisgyblion gyfansoddi araith nad yw'n para mwy na dau funud, i ysbrydoli tîm rygbi Cymru cyn gêm ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Unwaith y bydd y disgyblion/grwpiau o ddisgyblion wedi cwblhau eu cynlluniau lleferydd, efallai yr hoffent am berfformio eu haraith i'r dosbarth. Gall disgyblion ddefnyddio dulliau digidol addaser mwyn helpu gyda'u perfformiad, gan wella eu cymhwysedd digidol a'u sgiliau cyflwyno.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn datblygu eu haraith yn rap, cân neu rigwm
- Disgyblion yn perfformio eu haraith yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddefnyddio ymadroddion/terminoleg allweddol sy'n gysylltiedig â'r cam cynnydd perthnasol
- Disgyblion yn creu fideo o'u haraith i'w rannu gan ddefnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol

# Araith Ysgogol

Defnyddiwch yr awgrymiadau isod i ysgrifennu a pherfformio araith ysgogol i dimau Cymru cyn y gic gyntaf.



## 6 AWGRYM DEFNYDDIOL YNGLYN Â...: SUT I YSGRIFENNU ARAITH'

by Simon Rimmer, Rheolwr Cyfathrebu, URC

---

1. **Dywedwch beth rydych chi'n mynd i'w ddweud, dywedwch ef, wedyn esboniwch beth rydych chi wedi'i ddweud**

2. **Sicrhewch eich bod yn adnabod eich cynulleidfa.**

3. **3Cadarnhewch eich ffeithiau.**

4. **Ailadroddwch er mwyn pwysleisio** (os ydych yn awyddus i'ch cynulleidfa gofio rhywbeth, dywedwch ef o leiaf deirgwaith).

5. **Peidiwch â bod ofn menthyg o ffynonellau eraill** (beth bynnag fo'ch pwynt allweddol mae'n debygol y bydd dyfyniad enwog neu hanesyn personol i'w ategu) **ond cofiwch gydnabod y ffynhonnell!**

6. **Mae ailadrodd yn arf effeithiol.**

---

Gallwch gynnwys rhai o'r geiriau canlynol:


POB LWC
YMLAEN
BAROD
FEARLESS

HYDERUS / HYDER
BALCH / BALCHDER
ANGERDD/ANGERDDOL
PENDERFYNOL/PENDERFYNIAD

CYMRU
ARWYR
DEWR

# Araith Ysgogol

Cynlluniwch eich araith ysgogol isod



# Araith Ysgogol

Ysgrifennwch eich araith ysgogol.

**By** ________________________________

# Cynnydd Cam 2: Rhifau'r Chwe Gwlad

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau datrys problemau, mathemateg a rhifedd (dehongli a deall data). Datblygu terminoleg rhifau Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Adolygu tablau data i gyflwyno canfyddiadau mewn fformat graffigol o enillwyr pencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Mathemateg a Rhifedd

**Offer:** Templed enillydd/enillwyr y Chwe Gwlad, templed cyflwyno data (papur graff, siart amlder/cyfrif), pen ysgrifennu/pensil, pren mesur

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes esbonio tabl yr enillwyr i'r disgyblion, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol, sy'n nodi y bydd angen i'r disgyblion ddehongli'r data gan ddefnyddio siart cyfrif/amledd, i nodi nifer yr achlysuron y bu pob gwlad yn bencampwyr, yn enillwyr y gamp lawn ac yn enillwyr y goron driphlyg. Argraffwch dempled 'Enillwyr y Chwe Gwlad'. Gall disgyblion weithio'n unigol neu mewn grŵp i ateb y cwestiynau canlynol:

1. Faint o weithiau y mae Cymru (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
2. Faint o weithiau y mae Ffrainc (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
3. Faint o weithiau y mae Lloegr (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
4. Faint o weithiau y mae'r Alban (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
5. Faint o weithiau y mae Iwerddon (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
6. Faint o weithiau y mae'r Eidal (dynion) wedi ennill y Chwe Gwlad?
7. Faint o weithiau y mae Cymru (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
8. Faint o weithiau y mae Ffrainc (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
9. Faint o weithiau y mae Lloegr (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
10. Faint o weithiau y mae'r Alban (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
11. Faint o weithiau y mae Iwerddon (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
12. Faint o weithiau y mae'r Eidal (menywod) wedi ennill y Chwe Gwlad?
13. Pa wlad sydd wedi ennill y nifer mwyaf o bencampwriaethau yng nghystadleuaeth y dynion?
14. Pa wlad sydd wedi ennill y nifer mwyaf o bencampwriaethau yng nghystadleuaeth y menywod?
15. Pa wlad sydd fwyaf llwyddiannus yn gyffredinol?
16. Pa wlad sydd erioed wedi ennill pencampwriaeth y Chwe Gwlad?

# Cynnydd Cam 2: Rhifau'r Chwe Gwlad

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Mae'r athro/athrawes yn esbonio y bydd y disgyblion wedyn yn llunio graff i gyflwyno'r data. Argraffwch dempled i gyflwyno data. Gall yr athro/athrawes edrych eto ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei gofio wrth greu/cyflwyno data ar ffurf graffigol:

1. Defnyddio papur graff
2. Labelu pob echelin
3. Defnyddio graddfa addas
4. Defnyddio'r amrediad cywir
5. Defnyddio'r unedau cywir
6. Labelu'r bariau (os yn cwblhau graff bar)

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn plotio graff i gymharu perfformiadau timau dynion a menywod o wledydd ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad
- Disgyblion yn dehongli'r graff(iau) i ragfynegi'r tebygolrwydd enillwyr eleni
- Disgyblion yn cwblhau siart amlder/cyfrif i nodi'r tîm sydd fwyaf tebygol o ennill pencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni ac yn plotio eu canfyddiadau mewn graff.

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Enillwyr y Chwe Gwlad **Tîm Dynion,**
Hanes Pencampwyr y Gorffennol, ers 2002-2022.

| YEAR | CHAMPIONS | GRAND SLAM | TRIPLE CROWN | WOODEN SPOON |
|---|---|---|---|---|
| 2002 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Yr Eidal |
| 2003 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Cymru |
| 2004 | Ffrainc | Ffrainc | Iwerddon | Yr Alban |
| 2005 | Cymru | Cymru | Cymru | Yr Eidal |
| 2006 | Ffrainc | - | Iwerddon | Yr Eidal |
| 2007 | Ffrainc | - | Iwerddon | Yr Alban |
| 2008 | Cymru | Cymru | Cymru | Yr Eidal |
| 2009 | Iwerddon | Iwerddon | Iwerddon | Yr Eidal |
| 2010 | Ffrainc | Ffrainc | - | Yr Eidal |
| 2011 | Lloegr | - | - | Yr Eidal |
| 2012 | Cymru | Cymru | Cymru | Yr Alban |
| 2013 | Cymru | - | - | Ffrainc |
| 2014 | Iwerddon | - | Lloegr | Yr Eidal |
| 2015 | Iwerddon | - | - | Yr Alban |
| 2016 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Eidal |
| 2017 | Lloegr | - | - | Yr Eidal |
| 2018 | Iwerddon | Iwerddon | Iwerddon | Yr Eidal |
| 2019 | Cymru | Cymru | Cymru | Yr Eidal |
| 2020 | Lloegr | - | Lloegr | Yr Eidal |
| 2021 | Cymru | - | Cymru | Yr Eidal |
| 2022 | Ffrainc | Ffrainc | Iwerddon | Yr Eidal |

**Allwedd Lliw Gwlad: Lliwiwch bob gwlad ar y bwrdd**

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Enillwyr y Chwe Gwlad **Tîm Menywod,**
Hanes Pencampwyr y Gorffennol, ers 2002-2022.

| YEAR | CHAMPIONS | GRAND SLAM | TRIPLE CROWN | WOODEN SPOON |
|---|---|---|---|---|
| 2002 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Iwerddon |
| 2003 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Sbaen |
| 2004 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Iwerddon |
| 2005 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Cymru |
| 2006 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Sbaen |
| 2007 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Eidal |
| 2008 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Alban |
| 2009 | Lloegr | - | Cymru | Yr Eidal |
| 2010 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Cymru |
| 2011 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Alban |
| 2012 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Alban |
| 2013 | Iwerddon | Iwerddon | Iwerddon | Yr Alban |
| 2014 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Yr Alban |
| 2015 | Iwerddon | - | Iwerddon | Yr Alban |
| 2016 | Ffrainc | - | Lloegr | Yr Alban |
| 2017 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Eidal |
| 2018 | Ffrainc | Ffrainc | Lloegr | Cymru |
| 2019 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Alban |
| 2020 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Heb ei gwblhau |
| 2021 | Lloegr | - | - | Cymru |
| 2022 | Lloegr | Lloegr | Lloegr | Yr Alban |

**Allwedd Lliw Gwlad: Lliwiwch bob gwlad ar y bwrdd**

☐ _____________  ☐ _____________  ☐ _____________

☐ _____________  ☐ _____________  ☐ _____________

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Templedi siart cyfrif isod.

| COUNTRY | TALLY | TOTAL |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Siart Cyfrif Gwag

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Cyflwynwch eich canfyddiadau mewn graff.

# Rhifau'r Chwe Gwlad


Cyflwynwch eich canfyddiadau mewn graff.

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Crëwch Siart Gylch i gyflwyno eich canfyddiadau.

## Siart Gylch

## Allwedd y Siart Gylch



# Cynnydd Gweithgareddau Cam 3

# Cynnydd Cam 3: Amrywiaeth mewn Collage Rygbi

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau echddygol manwl, sgiliau creadigol. Meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Meithrin gwell ddealltwriaeth o dermau Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Creu collage i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant rygbi yng Nghymru

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Dyniaethau, Y Celfyddydau Mynegiannol, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Offer:** Templed Pwy sy'n chwarae rygbi?, siswrn, pen ysgrifennu/pensil, glud

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes esbonio beth yw collage, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i ddangos enghreifftiau. Gall yr athro bwysleisio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i gynllunio a chreu collage sy'n hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant rygbi yng Nghymru. Argraffwch y 'templed collage rygbi' ar gyfer pob disgybl.

Gall yr athro/athrawes drafod gyda'r dosbarth beth mae pob term yn ei olygu a sut mae'n berthnasol i rygbi yng Nghymru, gan ddefnyddio'r 'templed collage rygbi' i gefnogi. Gall yr athro/athrawes hefyd drafod beth yw'r ymgyrch 'Crys i Bawb' a sut mae'n cefnogi'r isod, wrth sicrhau bod rygbi yn hygyrch i bawb.

- **Amrywiaeth** – "y ffaith bod llawer o wahanol fathau o bethau neu bobl yn cael eu cynnwys mewn rhywbeth; ystod o wahanol bethau neu bobl"
- **Cydraddoldeb** – "sefyllfa lle mae dynion a merched, pobl o wahanol hiliau, crefyddau, ac ati i gyd yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd"
- **Cynhwysiant** – "y ffaith o gynnwys pobl, pethau neu syniadau o bob math a'u trin i gyd yn deg ac yn gyfartal"

Mae'r athrawon yn pennu templed collage i unigolion a/neu grwpiau o ddisgyblion ac yn gofyn iddynt lunio collage yn hyrwyddo 'Crys i Bawb'. Gall athrawon ofyn i ddisgyblion ddisgrifio beth mae pob delwedd yn y collage yn ei gynrychioli i hyrwyddo cynhwysiant mewn rygbi. Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg sy'n berthnasol i faes y pwnc a'r cam cynnydd.

Unwaith y bydd y disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion wedi gorffen eu collage, efallai yr hoffent gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/cyflwyno neu eu harddangos ar wal waith y dosbarth. Yna, gall y disgyblion ymchwilio i beth yw pob fformat rygbi a'i ddisgrifio, a sut mae'n hyrwyddo 'Crys i Bawb'.

# Cynnydd Cam 3: Amrywiaeth mewn Collage Rygbi

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn llunio asesiad gan gymheiriaid o gollages ei gilydd, gan nodi dau beth y maent yn eu hoffi ac un peth y byddent yn ei wella
- Disgyblion yn ymchwilio ymhellach i'r ymgyrch 'Crys i Bawb' a'r mentrau a gynigir gan URC i hyrwyddo cynhwysiant mewn rygbi
- Yna, gall y disgyblion ymchwilio i beth yw pob fformat rygbi a'i ddisgrifio, a sut mae'n hyrwyddo 'Crys i Bawb'
- Disgyblion yn creu fideo yn trosleisio eu collage i'w rannu gan ddefnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol
- Disgyblion yn creu llyfr celf dosbarth o gollages y Chwe Gwlad

# Amrywiaeth mewn Collage Rygbi



# Amrywiaeth mewn Collage Rygbi

Crëwch Gollage o bopeth Rygbi Cymru,
yn dangos amrywiaeth y gêm yn ein gwlad.

# Amrywiaeth mewn Collage Rygbi

Crëwch Gollage o bopeth Rygbi Cymru, yn dangos amrywiaeth y gêm yn ein gwlad.

JERSEY FOR ALL

# Cynnydd Cam 3: Ymchwil Gwledydd ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau ymchwil a chyflwyno Meithrin gwell dealltwriaeth o ffeithiau allweddol am wlad ym mhencampwriaeth Chwe Gwlad. Meithrin dealltwriaeth o dermau Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Coladu a chyflwyno gwybodaeth am wlad ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Y Dyniaethau. Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Offer:** Templed ymchwil gwledydd, ffynonellau gwybodaeth perthnasol

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes esbonio y bydd yn rhaid i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd, fel tîm rygbi, i ymchwilio i ffeithiau a gwybodaeth berthnasol am wlad o'u dewis ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, a choladu'r wybodaeth honno. Bydd angen i ddisgyblion hefyd drefnu eu gwybodaeth yn briodol, fel y gallant rannu hyn â'r dosbarth pan fyddant yn cwblhau eu cyflwyniad. Argraffwch y templed 'ymchwil gwledydd' ar gyfer pob disgybl.

Gall yr athro/athrawes bwysleisio i'r disgyblion/grwpiau o ddisgyblion y gallant gyflwyno eu gwybodaeth gan ddefnyddio dulliau digidol neu ddulliau nad ydynt yn ddigidol y maent yn teimlo fwyaf hyderus yn eu defnyddio. Gall yr athro/athrawes drafod gyda'r dosbarth beth sy'n gwneud cyflwyniad da? Gan nodi ffactorau megis:

- Cynnwys gwybodaeth berthnasol i'r gynulleidfa
- Cynnwys ffeithiau allweddol addas
- Cynnwys lluniau, diagramau, a graffiau/tablau lle y bo'n bosibl
- Sicrhau ei fod yn lliwgar ac yn ddiddorol

Yma, gall athrawon hefyd ychwanegu geiriau Cymraeg sy'n berthnasol i faes y pwnc a'r cam cynnydd yn gysylltiedig â'r templed 'ymchwil gwledydd'.

Unwaith y bydd y disgyblion/grwpiau o ddisgyblion wedi cwblhau eu hymchwil gwlad a chynllun cyflwyno, efallai yr hoffent rannu hwn â'r dosbarth.

# Cynnydd Cam 3: Ymchwil Gwledydd ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn cynnal cwis ac yn gofyn cwestiynau, a phob un yn seiliedig ar eu cyflwyniadau
- Disgyblion yn rhannu eu cyflwyniadau yn ystod gwasanaeth ysgol
- Disgyblion yn creu fideo yn trosleisio eu cyflwyniad i’w rannu gan ddefnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol
- Disgyblion yn creu llyfr/ffeil Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu o gyflwyniad y Chwe Gwlad i’w rannu yn yr ysgol

# Map of Ewrop

Dewch o hyd i wledydd y Chwe Gwlad ar y map hwn o Ewrop.





Lloegr



Yr Alban



Cymru



Yr Eidal



Iwerddon



Ffrainc

# Gwledydd y Chwe Gwlad

Ewch ati i ymchwilio i wlad o'ch dewis a chreu ffeil o ffeithiau ar ei chyfer.

Gwlad:

Atyniad:

Iaith:

Ail ddinas fwyaf:

Banner:

Poblogaeth:

Arian cy-

Ffaith ddiddorol:

Prifddinas:

# Cynnydd Cam 3: Rhifau'r Chwe Gwlad

**Nod y Gweithgaredd:** Meithrin sgiliau datrys problemau, mathemateg a rhifedd (dehongli a chynrychioli data). Cymhwyso dealltwriaeth o derminoleg rhifau Cymraeg

**Amcan y Gweithgaredd:** Dehongli canlyniadau 2022 i gyflwyno data mewn fformatau gwahanol

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Mathemateg a Rhifedd

**Offer:** Templed canlyniadau Chwe Gwlad 2022, templed tabl data, pen ysgrifennu/pensil, pren mesur

## Cyfarwyddiadau'r Dasg:

Gall yr athro/athrawes esbonio tabl canlyniadau dynion a merched 2022 y Chwe Gwlad i'r disgyblion, gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae'r athro/athrawes yn nodi y bydd angen i'r disgyblion ddehongli'r data a chynrychioli eu canfyddiadau mewn fformatau gwahanol (tabl, siart cylch, graff). Argraffwch dempled 'tabl canlyniadau Chwe Gwlad 2022'. Gall yr athro/athrawes benderfynu gyda'r disgyblion ar y fformat mwyaf addas i gynrychioli eu data. Gan adolygu templed tabl canlyniadau Chwe Gwlad 2022, gall y disgyblion weithio'n unigol neu mewn grwpiau i ateb y cwestiynau canlynol:

1. Pa wlad enillodd pencampwriaeth y dynion ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
2. Pa wlad enillodd pencampwriaeth y menywod ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
3. Pa wlad a gafodd y mwyaf o bwyntiau bonws ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
4. Pa wlad a gafodd y mwyaf o bwyntiau bonws ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
5. Pa wlad sgoriodd y mwyaf o geisiau ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
6. Pa wlad sgoriodd y mwyaf o geisiau ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
7. Pa wlad sgoriodd y lleiaf o geisiau ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
8. Pa wlad sgoriodd y lleiaf o geisiau ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
9. Pa wlad sgoriodd y mwyaf o bwyntiau ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
10. Pa wlad sgoriodd y mwyaf o bwyntiau ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
11. Pa wlad sgoriodd y lleiaf o bwyntiau ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
12. Pa wlad sgoriodd y lleiaf o bwyntiau ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
13. Pa wlad a gafodd y gwahaniaeth lleiaf rhwng pwyntiau ar gyfer y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
14. Pa wlad a gafodd y gwahaniaeth lleiaf rhwng pwyntiau ar gyfer y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad?
15. Pa wlad sydd fwyaf tebygol o ennill pencampwriaeth y dynion ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni a pham?
16. Pa wlad sydd fwyaf tebygol o ennill pencampwriaeth y menywod ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni a pham?
17. Pa ffracsiwn/canran o'r gemau a enillodd/collodd tîm dynion Cymru?
18. Pa ffracsiwn/canran o'r gemau a enillodd/collodd tîm menywod Cymru?
19. Faint o bwyntiau sgoriodd tîm dynion Cymru fesul gêm?
20. Faint o bwyntiau sgoriodd tîm menywod Cymru fesul gêm?

# Cynnydd Cam 3: Rhifau'r Chwe Gwlad

Mae'r athro/athrawes yn esbonio y bydd y disgyblion yn llunio graff i gynrychioli'r data. Argraffwch dempled(i) i gyflwyno data. Gall yr athro/athrawes edrych eto ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei gofio wrth greu/cyflwyno data ar ffurf graffigol:

- Defnyddio papur graff
- Labelu pob echelin
- Defnyddio graddfa addas
- Defnyddio'r amrediad cywir
- Defnyddio'r unedau cywir
- Labelu'r bariau (os ydynt yn cwblhau graff bar)
- Ychwanegu teitl

Fel arall, gall athrawon benderfynu gyda'r disgyblion ar fformat data amgen i gynrychioli'r data, er mwyn darparu her addas. Gall yr athro benderfynu gyda'r disgyblion pa ddata y maent am eu cynrychioli, megis pwyntiau a sgoriwyd, pwyntiau a ildiwyd, ceisiau a sgoriwyd, ceisiau a ildiwyd ac ati.

## Syniadau ar gyfer her ychwanegol:

- Disgyblion yn plotio graff i gymharu perfformiadau timau dynion a menywod o wledydd ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad
    - cyfanswm y pwyntiau a sgoriwyd
    - cyfanswm y pwyntiau a ildiwyd
    - cyfanswm y ceisiadau a sgoriwyd
    - cyfanswm y ceisiadau a ildiwyd
    - pwyntiau cyfartalog a sgoriwyd / ildiwyd fesul gêm

- Gall disgyblion ddadansoddi'r holl setiau data y maent wedi'u cynhyrchu i ragweld pwy fydd yn ennill pencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni ar gyfer tîm y dynion a thîm y menywod, a phwy fydd yn gorffen ar waelod y tabl.
- Gall y disgyblion gyfrifo'r tebygolrwydd y bydd Cymru yn sgorio nifer penodol o geisiau fesul gêm
- Gall disgyblion gyfrifo'r ffracsiwn a/neu ganran y gyfradd ennill/colli ar gyfer pob tîm ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

# Rhifau'r Chwe Gwlad - 2022

## Tabl Chwe Gwlad Tîm Dynion 2022

| | CHWARAEWYD | ENILLWYD | COLLWYD | GÊM GYFARTAL | PWYNTIAU AR GYFER/ PWYNTIAU YN ERBYN | PWYNTIAU GWAHANIAETH | CEISIADAU AR GYFER/ CEISIADAU YN ERBYN | PWYNTIAU BONWS | COLLI PWYNTIAU BONWS | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COUNTRY** | **P** | **W** | **L** | **D** | **P+/-** | **DIFF** | **TRY +/-** | **TB** | **LB** | **POINTS** |
| Ffrainc | 5 | 5 | 0 | 0 | 141/73 | 68 | 17/7 | 2 | 0 | 25 |
| Iwerddon | 5 | 4 | 1 | 0 | 168/63 | 105 | 24/4 | 4 | 1 | 21 |
| Lloegr | 5 | 2 | 3 | 0 | 101/96 | 5 | 8/11 | 1 | 1 | 10 |
| Yr Alban | 5 | 2 | 3 | 0 | 92/121 | -29 | 11/15 | 1 | 1 | 10 |
| Cymru | 5 | 1 | 4 | 0 | 76/104 | -28 | 8/8 | 0 | 3 | 7 |
| Yr Eidal | 5 | 1 | 4 | 0 | 60/181 | -121 | 5/27 | 0 | 0 | 4 |

## Tabl Chwe Gwlad Tîm Menywod 2022

| | CHWARAEWYD | ENILLWYD | COLLWYD | GÊM GYFARTAL | PWYNTIAU AR GYFER/ PWYNTIAU YN ERBYN | PWYNTIAU GWAHANIAETH | CEISIADAU AR GYFER/ CEISIADAU YN ERBYN | PWYNTIAU BONWS | COLLI PWYNTIAU BONWS | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COUNTRY** | **P** | **W** | **L** | **D** | **P+/-** | **DIFF** | **TRY +/-** | **TB** | **LB** | **POINTS** |
| Lloegr | 5 | 5 | 0 | 0 | 282/22 | 260 | 45/4 | 4 | 0 | 27 |
| Ffrainc | 5 | 4 | 1 | 0 | 152/48 | 104 | 22/6 | 4 | 0 | 20 |
| Cymru | 5 | 2 | 3 | 0 | 69/139 | -70 | 12/22 | 2 | 1 | 11 |
| Iwerddon | 5 | 2 | 3 | 0 | 68/158 | -90 | 11/24 | 1 | 0 | 9 |
| Yr Eidal | 5 | 2 | 3 | 0 | 44/163 | -119 | 4/24 | 0 | 0 | 8 |
| Yr Alban | 5 | 0 | 5 | 0 | 59/144 | -85 | 7/21 | 0 | 3 | 3 |

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Cyflwynwch eich canfyddiadau mewn graff.

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Cyflwynwch eich canfyddiadau mewn graff.

# Rhifau'r Chwe Gwlad

Crëwch Siart Gylch i gyflwyno eich canfyddiadau.

## Siart Gylch

## Allwedd y Siart Gylch

| | |
|---|---|
| ☐ ______________ | ☐ ______________ |
| ☐ ______________ | ☐ ______________ |
| ☐ ______________ | ☐ ______________ |

THIS IS OUR GAME

# DYMA RYGBI CYMREIG




@WELSHRUGBYUNION #JERSEYFORALL @WRU_COMMUNITY